



Aelod-fentor Disgrifiad o'r Rôl

1. Cyfrifoldebau

- Cyn bydd yn gweithio â'r sawl sy'n cael ei fentora, bydd y mentor yn cytuno i weithredu o fewn y 'Côd ymarfer i gynghorwyr sy'n mentora' a geir yng Nghanllawiau WLGA ar gyfer Aelod-fentoriaid.

2. Pwrpas a Gweithgarwch y Rôl

Cynnig cymorth

- Datblygu partneriaeth fyw gyda'r sawl sy'n cael ei fentora
- Bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor o ran datblygu proses ddysgu gyda'r sawl sy'n cael ei fentora, gan rannu adnoddau a phrofiad er budd y naill a'r llall
- Hyrwyddo a hwyluso rhwydweithio
- Ymateb i anghenion datblygu'r sawl sy'n cael ei fentora
- Darparu gwybodaeth ac arwain y sawl sy'n cael ei fentora i nodi anghenion dysgu ac i ddatblygu cynllun dysgu
- Bod yn arweinydd ac yn hyfforddwr o ran yr arferion a'r protocol presennol
- Sicrhau y cysylltir yn rheolaidd â'r sawl sy'n cael ei fentora ac y rhoddir adborth cyson er mwyn cefnogi datblygiad.

Creu her

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau adfyfrio gyda'r sawl sy'n cael ei fentora i rannu profiad, dealltwriaeth ac i hwyluso'r gwaith o werthuso'r dysgu

Helpu i greu gweledigaeth a hunaniaeth pan fydd y sawl sy'n cael ei fentora yn ymgymryd â rôl newydd

- Hyrwyddo llywodraethu, safonau moesol a chydberthynas ym materion y Cyngor
- Rhoi arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cynnal a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor

- Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion a'r safonau uchaf o ran ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

Datblygiad personol a datblygiad rôl y sawl sy'n cael ei fentora

- Bwrw iddi i chwilio am gyfleoedd sy'n cefnogi datblygiad personol a datblygiad rôl y sawl sy'n cael ei fentora

3. Rhinweddau tebygol Aelod-fentor da

- Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - ✓ Bod yn agored ac yn dryloyw
 - ✓ Gonestrwydd ac uniondeb
 - ✓ Goddefgarwch a pharch
 - ✓ Cydraddoldeb a thegwch
 - ✓ Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
 - ✓ Cynaliadwyedd
- Bydd wedi'i hyfforddi ar gyfer rôl y mentor ac yn gallu:
 - ✓ Rhoi adborth effeithiol
 - ✓ Datblygu cydberthynas
 - ✓ Cyfathrebu'n dda
 - ✓ Dangos diddordeb mewn datblygu eraill
 - ✓ Rhannu ei brofiadau ei hun
 - ✓ Hwyluso heb gyfarwyddo neu lywio
 - ✓ Creu amgylchedd cefnogol ond heriol er mwyn datblygu eraill
 - ✓ Dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r rôl

4. Gwerthoedd

- Bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd canlynol a'u harddangos mewn swydd gyhoeddus:
 - ✓ Gweithio fel un tîm
 - ✓ Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid
 - ✓ Gwrando er mwyn gwella
 - ✓ Ymdrechu i ragori
 - ✓ Gweithredu ag uniondeb
 - ✓ Cymryd cyfrifoldeb personol